## Am Cynllun Cysylltu Bywydau Gwynedd a Môn

Mae Cynllun Cysylltu Bywydau yn rhan o wasanaeth Anableddau Dysgu Cyngor Gwynedd ac yn cynnig gwasanaeth Cysylltu Bywydau ar draws Gwynedd a Môn.

Sefydlwyd y Cynllun yn 2005 ac eisoes mae 38 o alluogwyr mewn 30 cartref yn cefnogi 45 o leoliadau hirdymor a 10 lleoliad ysbaid rheolaidd y flwyddyn.

Cefnogir pobl 18+ sydd ag anableddau dysgu a chorfforol, anawsterau synhwyraidd, problemau iechyd meddwl a dementia cyfnodau cynnar i ganolig.

Rydym wedi ein lleoli mewn swyddfeydd y Cyngor ym Mhwllheli, Dolgellau a Llangefni.

Am fwy o wybodaeth am Galwch Draw neu Gynllun Cysylltu Bywydau, cysylltwch â ni ar:


| | |
|---|---|
| Teleffon: | 01758 704145 |
| Gwefan: | www.gwynedd.llyw.cymru |
| Cyfeiriad: | Cynllun Lleoli Oedolion<br>Cyngor Gwynedd,<br>Ffordd y Cob,<br>Pwllheli,<br>Gwynedd LL53 5AA |
| Facebook: | @CysylltuBywydauGaM<br>@GalwchDraw |
| Twitter: | @bywydau<br>@GalwchDraw |


# Galwch Draw

## *Darpariaeth ar gyfer pobl sy'n byw a dementia*



CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL


Rhan o Gynllun Cysylltu Bywydau Gwynedd a Môn

## Beth yw Galwch Draw?

Darpariaeth wahanol i'r arferol ydi Galwch Draw sydd yn darparu cefnogaeth i bobl sy'n byw â dementia cynnar i ganolig. Yn wahanol i ddarpariaethau dydd presennol sydd yn cael ei gynnal mewn canolfan dydd neu gartref preswyl, mae'r gefnogaeth yma yn cael ei ddarparu yng nghartref galluogwyr.

Ceir yr unigolyn eu cyfatebu yn ofalus gyda galluogwr trwy edrych ar y pethau maent yn hoffi/ddim yn hoffi, eu hanghenion, lleoliad cartref y galluogwr a'r cartref ei hun (e.e. oes anifeiliaid neu blant yno). Mae'r gefnogaeth a ddarperir yn berson canolog a chefnogir yr unigolyn gan y galluogwyr i gwblhau gweithgareddau yr hoffai wneud.

Yn ystod lleoliad, bydd ein galluogwyr yn sicrhau fod yr unigolyn yn teimlo yn gyfforddus ac yn cael ei gynnwys ym mhob agwedd o'i bywyd teuluol, yn ogystal â'u cynorthwyo ag unrhyw anghenion.





Mae'r Cynllun yn galluogi ysbaid i brif ofalwr yr unigolyn, drwy sicrhau fod yr unigolyn yn cael ei gefnogi mewn amgylchedd teuluol, diogel. Mae'r gefnogaeth o safon uchel gan alluogwyr profiadol sydd yn derbyn hyfforddiant rheolaidd a chefnogaeth gan swyddogion y Cynllun. Wrth ymuno a'r Cynllun, mae pob galluogwr wedi cwblhau proses asesu cynhwysfawr.

Mae ein galluogwyr wedi eu lleoli ar draws Gwynedd a Môn a gall gyn-nig lleoliadau dydd neu ysbaid sydd yn galluogi'r unigolyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamddenol a theuluol.